**CYMDEITHAS
LLANNERCH-Y-MEDD
COMMUNITY COUNCIL**

**04.04.24
7:00 pm**

# CYFARFOD LLAWN/ *FULL MEETING*
## *Cyfarfod Hybrid - ZOOM*
## *A Stafell Gyfarfod Stesion*
## *COFNODION*

| | |
|---|---|
| **1** | **Croeso ac Ymddiheuriadau**<br><br>**Presennol:** JOJ (Cadeirydd) DAW ; JAJ; TAJ; EY; EO; DP; IW; AR; RY; RJ<br><br>**Ymddiheuriadau:** LLMH; GW<br><br>**Mynychu:** SWR |
| **2** | **Datgan Diddordeb**<br><br>Datganodd AR ddiddordeb yn Eitem 4 Materion Trwy'r Gadair – pwynt 4 Safle Bws Bryncir |
| **3** | **Cofnodion 07.03.24** Cyflwynwyd a derbyniwyd cofnodion 07.03.24 fel rhai cywir yn unol a gwirio paragraff olaf tud 1 i ddarllen *Cwmni Cymunedol*. (TAJ/JAJ)<br>**Materion yn Codi**<br><br>• **Cynllun Gweithredu Priffyrdd CSYM –** cylchredwyd y fersiwn ddiweddaraf ar ebost 28.3.24. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i ychwanegu'r canlynol:-<br>Gosod marciau/ramp gor yrru ger y groesfan yn y Stryd Fawr a Tafarn Twrcelyn.<br>Marcio 'dimparcio' o flaen Capel Ifan<br>Marcio safle bws dros y ffordd i Erw'r Delyn<br>Llif ger Tyddyn Goeden heb ei ddatrys<br>Cytuno a'r cynnig i osod llinellau melyn ar hyd un ochr ffordd i ymuno a'r zig-zag ger yr Ysgol holl ffordd |



Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | |
|---|---|
| | Anfon manylion lleoliad Rhyd y Badell at Garry Leadbitter<br><br>• **Adborth Grant Cae Astro –** adroddodd y Clerc bod trafodaethau gyda swyddog FAW wedi argymell gohirio cyflwyno cais hyd mis Hydref gan fod yr amserlen y clych yma o gesiadau (29 Mawrth) mor dyn. Bydd trefniadau i gael cyfarfod gyda swyddogion CPD; CC Llan; FAW ac eraill yn fuan er mwyn paratoi trylwyr.<br><br>• **Gwaredu Byrddau Snwcer –** Nodwyd bod clybiau Amlwch a Llanfair wedi dangos diddordeb – RJ/IW wedi cytuno i drefnu eu dangos iddynt.<br><br>Diweddarwyd y Cynllun Gweithredu i greu fersiwn – 04.04.24 |
| **5** | **Materion Trwy'r Gadair**<br><br>• **Gwasanaeth bws Llan –** mynegwyd cryn bryder am wasanaethau bws trwy Llannerchymedd a bod angen linc ychwanegol rhwng Amlwch a Llangefni. Byddai trefnu bws hwyrach yn allweddol i hwyluso rhai sy'n teithio ar fws o fan gwaith neu'n fyfyrwyr o Fangor. sicrhau mynediad Gwasnaeth gwarthus ar hyn o bryd. Nodwyd bod diffyg yn y gwasanaeth yn enghraifft dda o gymunedau gefn gwlad yn cael eu hanwybyddu yng Nghaerdydd. Clerc i ddwyn i sylw y Cynghorwyr lleol.<br><br>• **Cyflwr lonydd bach o gwmaps Llan –** cyfeirwyd at gyflwr lonydd bach o gwmpas yr ardal gyda llawer o faw yn cael ei adael gan drafnidiaeth fawr. Clerc i holi CSYM beth yw'r argymhellion/arweiiad gyda clirio ffordd.<br><br>• **Cytundeb CPD –** cafwyd trafodaeth ar lunio cytundeb ffurfiol gyda'r CPD. Nododd y Clerc bod Rhys Jones yn awyddus i wybod beth yn union mae'r CC am ei gynnwys mewn cytundeb. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i CPD dalu biliau dwr a trydan o hyn ymlaen ond ddim i godi rhent ar y CPD. Mae Rhys J wedi cynnig 11.4.24 am 7pm fel dyddiad i gyfarfod rhwng y ddau barti. TAJ/JAJ/JOJ/EO i gynrychioli CC Llan – Clerc i weithredu**.**<br><br>• **Safle Bws Ysgol Bryncir –** trafodwyd cynnwys ebost gan un o drigolion ardal Bryncir yn pryderu am y bws Ysgol yn codi plant yng ngheg lon Stad Bryncir. Mae ceir yn gyrru lawr y ffordd ac mae pryder bydd damwain. Hefyd mae cwyn am geir rhai sy'n anfon eu plant at y bws yn rhwystro preswylwr Bryncir i gael mynediad i'r ffordd fawr. Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd nad oedd penderfyniadau ar y mater yn reolaeth CC Llan ac i'r Clerc anfon y gwyn ymalen at Adran Priffyrdd/Addysg CSYM ac at y 3 Aelod Lleol. Hefyd i gadw awdur yr ebost yn gyfredol o unrhyw ddatblygiadau. |



Mrs Sydna Roberts
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383
sydnaroberts@btinternet.com

| | |
|---|---|
| | • **Enw Posib Stad –** trafodwyd cais gan ddatlbygwr tai stad ger Ty'n Ffynnon i cyflwyno enw newydd i'r datblygiad. Cynnigiodd IW Cae'r Ffynnon ac fe eilwyd gan EO – cytunwyd yn unfrydol. Clerc i weithredu.<br>• **Polisiau –** cylchredwyd polisiau Amgyleddol a Bioamrywiaeth a Cyfle Cyfartal eisoes dros ebost. Cynnigiodd DAW eu bod yn dderbyniol ac fe eilwyd gan TAJ – cytunwyd yn unfrydol. Clerc i drefnu gosod ar y wefan. |
| **6** | **Materion Cyllidol a Thaliadau**<br><br>**Taliadau Misol**<br>**Gwariant ers cyfarfod Mawrth –** **£**<br>Cyflog Clerc – Mawrth 450.08<br>Costau Blynyddol Clerc - cadarnhawyd talu hwn trwy'r Cadeirydd 550.00<br>Mark Roberts – adnewyddu trwydded gwefan CC Llan 9.54<br>Mark Roberts Trwydded gwefan LlanNi X 3 blynedd 432.00<br>(ad-daliad gan Loteri Fawr o £360 sef swm £432.00 namyn TAW)<br>Scottish Power – Uned 1 73.68<br>Caffi'r Stesion – til newydd i'r Caffi 408.00<br><br>Nododd y Clerc bod arian o'r gronfa Elusennol 2019 yn weddill i CC Llan – sef £1071.00. Cytunwyd i gyflwyno cais am 'booster' i'r rhwyngrwyd – oddeutu £200; Trwshio y tren yn yr Ardd Gymunedol oddeutu £500; Camera diogelwch ychwanegol oddeutu £300; Cynnigiodd AR ac fe eilwyd gan EO – cytunwyd yn unfrydol. Clerc i weithredu.<br><br>**Biliau cyfredol:** **£**<br>MSI Alarms – Stesion 93.60<br>JRB Enterprise Ltd – bagiau baw ci 77.88<br>Dwr Cymru – Fynwent Gyhoeddus 21.07<br>Dwr Cymru – Clwb Bowlio 24.24<br>Dwr Cymru – Uned 2 212.34<br>Dwr Cymru – CPD 79.77<br><br>Clerc i holi Dwr Cymru am atal biliau ar Uned 1 a 2 nes bydd yr Unedau yn cael eu ail-osod.<br><br>**Sefyllfa gyfredol**<br>Cyfrif Cyfredol: £ 673.60<br>Cyfrif Cadw: £ 6526.94 |
| **7** | **Materion Cynllunio**<br>**RM 2024/01 Cais ger Ty'n Ffynnon**<br>Cais am faterion a gadwyd yn ôl ar gyfer adeiladu 10 annedd ynghyd a darparu gwybodaeth i ryddhau amod (05) (Cynllun Rheoli Traffig Adeiladu), |



Mrs Sydna Roberts sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383

| | |
|---|---|
| | amod (06) (Trefniadau Mynedfa) a amod (09) (Manylion Bipell Ddwr) o ganiatâd cynllunio OP/2021/10<br><br>Dim gwrthwynebiad. |
| **8.** | **Adroddiad Cynghorwyr Sir –** Ymddiheuriadau i law |
| **9** | **Materion Safleoedd**<br><br>**Unedau Tan y Foel -** cytunwyd bod angen terfnu cyfarfod arall. O ran Uned 2 adroddodd y Clerc bod Mr Feehily wedi cynnig chwilio am rhywun i drwshio'r to ac adrodd yn ôl i'r Cyngor. – Clerc i weithredu yn dilyn cyngor gan Rhys Jones. Clerc hefyd i holi Rhys J am dorri cyflenwad trydan i Uned 1 a 2 i arbed arian ac efallai rhoi'r gost o ail-gysylltu yn amod i denant newydd.<br><br>**Safle'r Stesion –**. dim i law<br><br>**Lawnt Fowlio –** Clerc wedi cael neges gan Clwb Benllech yn diolch am gael defnyddio dros dymor y gaeaf. Clerc i holi beth, yn eu tyb nhw, yw'r gwaith cynnal a chadw sydd ei angen.<br><br>Cyfarfod hefo Clwb Llanfair heb ei drefnu er i'r Clerc ymdrechu i ffonio Mr Parry – IW i geisio trefnu ymhellach<br><br>**Clwb Peldroed –** trafodwyd yn eitem Eitem 4<br><br>**Cae Gofeb –** dim i law<br><br>**Mynwentydd** – dim i law |
| **10.** | **Gohebiaeth**<br><br>Cydnabuwyd derbyn yr ohebiaeth fel â nodwyd uchod ac ar y Rhaglen – dim sylwadau pellach. |
| | *Daeth y cyfarfod i ben am 8:50* |



Mrs Sydna Roberts
sydnaroberts@btinternet.com
Clerc
Cyngor Cymdeithas Llannerchymedd
Bryn Odol
4 Bryncir
**LLANNERCH-Y-MEDD**
**Ynys Môn LL71 8EG** Ffôn: 01248 470383